# Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn

## Pleidleisiau a Thrafodion (259)

### Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Mawrth 2007

### Amser: 2.00pm

### Gellir gweld canlyniadau'r pleidleisiau yma

### Ymweliad Llywodraethwr Talaith Chubut

### 2.07pm

### Eitem 1 - Cynnig i ethol Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio

#### NDM3547 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn penderfynu:

1. Bod Pwyllgor, i'w adnabod fel Pwyllgor Penderfyniadau Cynllunio (2) 2007-2, yn cael ei sefydlu yn unol â Rheol Sefydlog 17 y Cynulliad i gyflawni swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y materion y cyfeirir atynt yn yr Atodlen i'r cynnig hwn a nodir yng nghyswllt pob mater yn yr atodlen honno a bod swyddogaethau'r Cynulliad yng nghyswllt y rheini'n cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor hwnnw.

2. Mai aelodau'r Pwyllgor hwnnw fydd:

Carwyn Jones (Cadeirydd)
Lorraine Barrett
Mick Bates
Elin Jones

3. Bod y Pwyllgor yn peidio â bod pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn llofnodi'r llythyr penderfynu yn unol â Rheol Sefydlog 17.16 neu ar 30 Mawrth 2007, pa un bynnag a fydd gyntaf.

4. Os bydd y Pwyllgor yn peidio â bod heb i'r Cadeirydd lofnodi llythyr penderfynu mewn perthynas â'r mater a nodir yn yr Atodlen i'r cynnig hwn, yna, yn yr achos hwnnw, bod y swyddogaethau a nodir ym mharagraff 1 uchod, yng nghyswllt mater o'r fath, yn cael eu dirprwyo i'r Prif Weinidog.

Atodlen

1. Cais cynllunio a alwyd i mewn o dan adran 77 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan S V Owen Ltd ar gyfer datblygiad preswyl arfaethedig o 34 annedd tri llawr ar yr Hen Faes Criced, Bae Trearddur, Ynys Môn:

2. Apêl cynllunio o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Westbury Homes (Holdings) Ltd ar gyfer datblygiad preswyl newydd o 41 o dai tref tri llawr, 221 rhandy mewn 6 phafiliwn chwe llawr, 1 bloc yn codi o dri llawr i saith llawr ac 1 bloc yn codi o bedwar llawr i ddeg llawr ynghyd â gofynion parcio, seilwaith a thirlunio cysylltiedig yn Pentreguinea Road, St Thomas, Abertawe

3. Apeliadau cynllunio o dan adran 78 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 gan Newbridge Construction Ltd, Mr R A E Herbert a Mrs M G Herbert ar gyfer: -

(apêl a) datblygiad preswyl, man agored cyhoeddus, gwaith lliniaru llifogydd a gwelliannau amgylcheddol cysylltiedig ar hen Gwrs Golff Parc Tredegar, Casnewydd.

(apêl b) gwaith arfaethedig i ddarparu cyfleusterau rheoli llifogydd a chronni dwr llifogydd ym Maes Chwarae a Maes Hamdden Parc Tredegar, Casnewydd.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **34** | **0** | **0** | **34** |

Derbyniwyd y cynnig.

**..................................**

## 2.08pm

## Eitem 2 - Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 11 yn ôl a throsglwyddwyd cwestiwn 13 i’w ateb yn ysgrifenedig.

**..................................**

## 3.11pm

## Eitem 3 - Datganiad Busnes

Derbyniwyd y datganiad busnes.

**...................................**

## 3.22pm

## Datganiad gan y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau: Chwareli llechi Alfred McAlpine

**...................................**

## 3.42pm

## Eitem 4 - Datganiad gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i brosiect craffu'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus – Trefniadau Etholiadol yng Nghymru

**...................................**

## 4.14pm
## Eitem 5 - Datganiad gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: Y cynnydd a wnaed wrth fuddsoddi mewn adeiladau ysgolion

**...................................**

## 4.35pm

## Eitem 6 - Cynnig i gymeradwyo The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) Regulations 2007 o dan Reolau Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14

### NDM3539 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 24.25, 25.13 a 25.14:

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, The Pesticides (Maximum Residue Levels in Crops, Food and Feeding Stuffs) (England and Wales) (Amendment) Regulations 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 6 Mawrth 2007, ac yn nodi'r

Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 32 | 0 | 0 | 32 |

Derbyniwyd y cynnig.

..................................

## 4.45pm

***Ni chynhaliwyd dadl ar yr eitem hon. Cynhaliwyd pleidlais arni'n syth.***

## Eitem 7 - Cynnig i gymeradwyo deddfwriaeth o dan Reol Sefydlog 24.25

**NDM3548 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 24.25:

1 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ysgolion Annibynnol (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

2 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y gorchymyn drafft, Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007; a

b) Yn cymeradwyo bod Gorchymyn Cyfeiriadau at Awdurdodau Iechyd 2007 yn cael ei wneud yn unol ag:

i) y Gorchymyn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

Derbyniwyd y cynnig.

.................................

## 4.46pm

## Eitem 8 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007

**NDM3549 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 0 | 42 |

Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.

**NDM3550 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) (Diwygio) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 27 Chwefror 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

Derbyniwyd y rheoliadau.

..................................

## 4.47pm

## Eitem 9 - Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007

### NDM3551 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

Derbyniwyd egwyddor y rheoliadau.

### NDM3552 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007 ynghylch y rheoliadau drafft, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007; a

2. Yn cymeradwyo bod y rheoliadau drafft, Rheoliadau Staffio Ysgolion a Gynhelir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2007 yn cael eu gwneud yn unol ag:

a) y drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007; a

b) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 0 | 41 |

Derbyniwyd y rheoliadau.

..................................

## 4.49pm

## Eitem 10 - Cynnig i gymeradwyo Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cymru) 2007 o dan Reol Sefydlog 29.3(iii)

### NDM3553 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cymru) 2007 y gosodwyd drafft ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y cyfarwyddiadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 0 | 43 |

Derbyniwyd egwyddor y cyfarwyddiadau.

### NDM3554 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol

Gan weithredu’n unol â Rheol Sefydlog 29.3 (iii) yn cymeradwyo Cyfarwyddiadau Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG (NHS Business Services Authority) (Cymru) 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau’r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cyfarwyddiadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

Derbyniwyd y cyfarwyddiadau.

**..................................**

## 4.50pm

## Eitem 11 - Cynnig i gymeradwyo The Highways (Environmental Impact Assessment) Regulations 2007 o dan Reol Sefydlog 25 rhan 3

### NDM3555 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu'n unol â Rheol Sefydlog 25.13

Yn cymeradwyo'r rheoliadau drafft, The Highways (Environmental Impact Assessment) Regulations 2007 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007, ac yn nodi Memorandwm Esboniadol y Gorchymyn hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a e-bostiwyd at Aelodau'r Cynulliad ar 13 Mawrth 2007.

Cynhaliwyd pleidlais ar y rheoliadau:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 44 | 0 | 0 | 44 |

Derbyniwyd y rheoliadau.

**..................................**

## 4.50pm

## Eitem 12 - Dadl ar Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

### NDM3556 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu:

a) adroddiad blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant ar gyfer 2005-06;

b) casgliad y Prif Arolygydd bod darparwyr yn y rhan fwyaf o sectorau wedi gwella'n sylweddol ers iddynt gael eu harolygu ddiwethaf;

c) y camau sy'n cael eu cymryd drwy raglen Y Wlad Sy'n Dysgu i fynd i'r afael â'r meysydd ar gyfer gwella a nodwyd gan y Prif Arolygydd ac i chwalu'r rhwystrau rhag dysgu.

***Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:***

***Gwelliant 1 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)***

*Dileu pwynt b) a rhoi yn ei le: 'casgliad y Prif Arolygydd bod gwell cydweithio rhwng y rheini sy'n cynllunio, darparu a chyflwyno addysg yn hollbwysig os yw nifer o'r cynlluniau newydd ym myd addysg a hyfforddiant yng Nghymru yn mynd i fod yn effeithiol.'*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 26 | 46 |

Gwrthodwyd gwelliant 1.

***Gwelliant 2 - Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru)***

*Dileu pwynt c) a rhoi yn ei le: 'y gydnabyddiaeth o'r angen i sicrhau defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg mewn ysgolion Saesneg eu cyfrwng mewn pynciau heblaw Cymraeg ac mewn gweithgareddau ar ôl ysgol.'*

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 20 | 0 | 26 | 46 |

Gwrthodwyd gwelliant 2.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 0 | 46 |

Derbyniwyd y cynnig.

..................................

Daeth y cyfarfod i ben am 5.38pm.

## Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 2.00pm ddydd Mercher, 21 Mawrth 2007

**Penderfyniadau**